Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 27 Tachwedd 2020

Rhif Union: 01824 712589

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 4 RHAGFYR 2020** am **10.00 am TRWY GYFRWNG FIDEO**.

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y 04 Medi 2020 (copi ynghlwm).

**5 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a Chynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

## 6 GWRANDAWIAD Y PWYLLGOR SAFONAU ARBENNIG - GWERSI A DDYSGWYD

Derbyn adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro ar y gwersi a ddysgwyd yn dilyn Gwrandawiad y Pwyllgor Safonau Arbennig.

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyn adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro ar adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau.

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

(Tudalennau 11 - 12)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

## 9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safona. ar y 5 Mawrth 2021.

## RHAN 2: EITEM CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf), ei datgelu.

## 10 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

(Tudalennau 13 - 18)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 11 ADRODDIAD YMCHWILIAD OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ystyried adroddiad cyfrinachol o dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau Cymru 2001 gan y Swyddog Monitro (copi ddim ynghlwm) ynghylch ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## AEOLODAETH

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes (Is-Gadeirydd), Anne Mellor a/ac Peter Lamb

Aelod Cyngor Tref / Cymuned
Gordon Hughes

Cynghorwyr Sir
Y Cynghorydd Paul Penlington
Y Cynghorydd Andrew Thomas

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy’n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy’n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod o bell y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ddydd Gwener, 4 Medi 2020 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

Trigger (Cadeirydd), Julia Hughes (Is-gadeirydd), Anne Mellor a Peter Lamb ynghyd â'r Cynghorwyr Paul Penlington, Andrew Thomas a Gordon Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Cefn Meiriadog)

**DALIWCH SYLW**

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Leol wahoddiad i arsylwi hefyd.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Dim.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd Paul Penlington gysylltiad personol ag eitem 9 ar y Rhaglen gan fod cyfeiriadau at gwynion hanesyddol wedi'u cynnwys.

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 06 Mawrth 2020.

Materion yn Codi -

Tudalen 8 – Eitem 4 – Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf – Amlygwyd nad oedd yr adroddiad ar 'Gwersi a Ddysgwyd - Gwrandawiad Safonau Arbennig' wedi'i gynnwys yn y rhaglen. Sicrhaodd y Swyddog Monitro yr aelodau y byddai'n gynwysedig yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

Tudalen 10 – Eitem 7 – Mynychu cyfarfodydd – teimlai'r Aelodau y byddai'n fwy priodol hepgor '(os yn gyflym)' o'r cofnodion.
Tudalen 10 – Eitem 7 – Presenoldeb mewn cyfarfodydd – nodwyd mai gwariant ar gadw cyfrifon a oedd wedi achosi problem ac nid yr ymarfer safonol fel y cofnodwyd yn y cofnodion.

***PENDERFYNWYD,** y dylid derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Mawrth 2020 fel cofnodion cywir.*

**5 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) adroddiad am Lyfr Achosion Cod Ymddygiad - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Hysbysodd y SM y Pwyllgor mai bwriad y Llyfr Achosion oedd cynorthwyo aelodau ac eraill i ystyried a oedd yr amgylchiadau yr oeddent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth am y ffordd yr oedd yr Ombwdsmon a phwyllgorau safonau eraill yng Nghymru yn ymdrin ag achosion.

Amlygodd y SM achosion yn y Llyfr Achosion yn ymwneud â:
- Rhif yr Achos: 201805269 - Dyletswydd i gynnal y gyfraith - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Ni chymerwyd unrhyw gamau
- Rhif yr Achos: 201807334 – Datgelu a chofrestru buddiannau - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Ni chymerwyd camau

Oherwydd pandemig Covid-19, esboniodd y SM bod posibilrwydd y gwelir cynnydd mewn achosion yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Nododd y Cadeirydd ei bryder na ymchwiliwyd i'r achos cyntaf.  Pwysleisiwyd nad oedd y cefndir na'r manylion wedi'u darparu. Gan hynny roedd yn anodd deall y rhesymeg y tu ôl i pam na chafodd ei ymchwilio.
Cynghorir Aelodau a Chynghorwyr Sir Ddinbych i sefydlu debyd uniongyrchol ar gyfer Treth Y Cyngor er mwyn cynnal taliadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ddarparu manylion y ddau achos.

***PENDERFYNWYD -** bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.*

**6 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodwyd ers y cyfarfod diwethaf, oherwydd y cyfyngiadau, nad oedd aelodau wedi gallu mynychu unrhyw gyfarfodydd.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro (SM) bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r rheoliadau yn ymwneud â chyfarfodydd o bell. Byddai'r awdurdod yn annog Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i gynnal cyfarfodydd o bell wrth fynd ymlaen. Dywedodd SM bod yr awdurdod wedi profi dulliau o gynnal trefniadau gweithio o bell ar lwyfannau amgen. Roedd nodyn briffio wedi cael ei ddosbarthu i glercod i gynnig arweiniad. Roedd canllawiau wedi'u darparu hefyd gan Un Llais Cymru.

Datganodd y SM y dylai aelodau sy’n dymuno mynychu unrhyw gyfarfodydd ei hysbysu ef. Byddai’n ymgynghori â’r clerc perthnasol wedyn i wneud trefniadau i fynychu yn bersonol neu o bell. Roedd aelodau’n falch o glywed y byddai’n bosibl mynychu cyfarfodydd o bell. Amlygwyd y byddai cynnal cyfarfodydd o bell o bosibl yn annog mwy o ddiddordeb gan y cyhoedd mewn cyfarfodydd cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Diolchodd y Cadeirydd i’r SM am ei gefnogaeth i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned ac anogodd aelodau i gysylltu â’r SM yn uniongyrchol am gefnogaeth wrth fynychu cyfarfodydd.

***PENDERFYNWYD** - nodi’r pwyntiau y soniwyd amdanynt uchod.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM), Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Cadarnhawyd bod Gwersi a Ddysgwyd Gwradnawiad Safonau Arbennig wedi’i gynnwys ar y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2020.

Nodwyd nad oedd amserlen cyfarfodydd 2021 wedi cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn eto felly nid oedd ar yr adroddiad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Cadarnhawyd y byddai’r dyddiadau cymeradwy yn cael eu cynnwys yn rhaglen y cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau.*

## 8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Trefnwyd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Safonau ddydd Gwener 04 Rhagfyr 2020. Cadarnhawyd y byddai’r cyfarfod hwn o bosibl yn cael ei gynnal o bell.

***PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 9 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i roi trosolwg i'r Aelodau o’r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ionawr 2018.

Siaradodd y SM am gwynion a gyflwynwyd yn ymwneud â chynghorau yn Sir Ddinbych, gan roi manylion amlinellol natur y cwynion a wnaed a'r camau a gymerwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cadarnhawyd bod yr Ombwdsmon wedi parhau i ddefnyddio’r un weithdrefn i ganfod a oedd angen ymchwilio i gŵyn. Roedd datrysiad lleol yn cael ei annog o hyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 a.m.**

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| | | |
| **05 Mawrth 2021** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| **11 Mehefin 2021** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| **17 Medi 2021** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| **3 Rhagfyr 2021** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag